PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU – 22 CHWEFROR 2022

PWNC: **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2021**

ADRODDIAD GAN: **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau am y cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021 yn erbyn camau gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 presennol y Cyngor, a darparu unrhyw sylwadau cyn i'r Cabinet ei gymeradwyo a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

2. CRYNODEB

2.1 Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad blynyddol ar faterion cydraddoldeb o dan y ddeddfwriaeth gyfredol. Mae'r gofynion yn fanwl iawn o ran pa wybodaeth berthnasol y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol (ynghlwm yn llawn fel atodiad).

2.2 Mae swm y wybodaeth a gyflwynir felly er mwyn sicrhau bod y corff rheoleiddio dan sylw (y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol) yn cael tystiolaeth lawn o gydymffurfiaeth y Cyngor a'i ymrwymiad i'r dyletswyddau statudol hynny.

2.3 Rhaid cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.

3. ARGYMHELLION

3.1 I'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ddarparu unrhyw sylwadau ar yr adroddiad cyn i'r Cabinet ei gymeradwyo a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

4.1 Mae'n ofynnol i'r cyngor, o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, gynhyrchu adroddiad blynyddol ar y camau a gymerwyd i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a'i amcanion cydraddoldeb

ei hun fel a nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024.

5. YR ADRODDIAD

5.1 O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, rhaid cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol o fewn 12 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol a gwmpesir gan yr adroddiad hwnnw.

5.2 Ynghlwm wrth yr adroddiad hwn mae Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2021 fel Atodiad A.

5.3 Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd gennym yn ystod 2020-2021, a oedd yn flwyddyn heriol oherwydd y pandemig ac yn gofyn i ni ddod o hyd i ddulliau eraill o gyfathrebu negeseuon ac ymgysylltu â phobl. Mae ymgynghoriadau allweddol yn cynnwys:

- Sgwrs Caerffili
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif
- Ymgynghori Teithio Llesol (Cam 1).
- Gweithio Ystwyth (arolwg staff)

5.4 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ymateb y Cyngor i bandemig Covid-19 a sut y bu i ni helpu ein trigolion bregus trwy'r Cynllun Cyfeillio a darparu gwasanaethau allweddol megis Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Hybiau Gofal Plant, Dosbarthu Prydau Ysgol Am Ddim, Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar, Dysgu o Bell, y Gwasanaeth Ieuenctid ac ymdrechion i warchod yr economi leol.

5.5 Fe wnaethom ddatblygu, cymeradwyo a chyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 newydd, a phecyn cymorth Asesiad Effaith Integredig newydd yng ngoleuni'r gofyniad newydd i ystyried y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol, a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2021.

5.6 Fe wnaethom hefyd ddathlu a nodi rhai dyddiadau calendr blynyddol arwyddocaol, megis:

- Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
- Diwrnod y Lluoedd Arfog
- Pride Cymru
- Diwrnod Shwmae
- Mis Hanes Pobl Dduon
- Diwrnod Rhuban Gwyn
- Diwrnod Cofio'r Holocost
- Diwrnod Rhyngwladol Menywod
- Dim Goddefgarwch i Hiliaeth

5.7 **Casgliad**

Mae'r adroddiad yn dangos cynnydd y Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021 yn erbyn y camau gweithredu yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 y Cyngor.

6. RHAGDYBIAETHAU

6.1 Ni wnaed unrhyw ragdybiaethau wrth baratoi'r adroddiad hwn.

7. CRYNODEB O'R ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

7.1 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ac ymgynghoriad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 wrth iddo gael ei ddatblygu, felly nid oes asesiad llawn wedi'i wneud o'r adroddiad blynyddol hwn. Mae'r adroddiad ei hun yn asesiad o waith a chynnydd a wnaed gan y Cyngor o dan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 a chynnydd yn erbyn y camau gweithredu.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

8. GOBLYGIADAU ARIANNOL

8.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn gan fod yr adroddiad blynyddol yn ymdrin â gwaith a wnaed eisoes yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

9. GOBLYGIADAU PERSONÉL

9.1 Mae data cydraddoldeb wedi'i gynnwys yn Strategaeth Datblygu'r Gweithlu 2021–2024. Yn unol â'r cynllun gweithredu sydd wedi'i gynnwys yn y Strategaeth, mae gwaith yn mynd rhagddo i fireinio a gwella ein data cydraddoldeb gyda'r bwriad o adrodd a chyhoeddi data i gyd-fynd â mis Mawrth 2022. Yn dilyn y cyllid ychwanegol dros dro ar gyfer staff Datblygu'r Gweithlu, bydd coladu data hyfforddi hefyd yn ffocws yn unol â'r cynllun gweithredu.

10. YMGYNGHORIADAU

10.1 Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ar draws meysydd gwasanaeth ar weithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 a chyflawni'r amcanion cydraddoldeb yn ystod 2020-2021.

10.2 Anfonwyd yr adroddiad hwn at yr Ymgynghorai a restrir isod ac adlewyrchir yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn yr adroddiad hwn.

11. PWERAU STATUDOL

11.1 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Deddf Hawliau Dynol 1998
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru 2011

Awdur: Anwen Cullinane
Uwch Swyddog Polisi – Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori
cullima@caerphilly.gov.uk

Ymgynghorai: Christina Harrhy – Prif Weithredwr

Richard Edmunds – Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Cyng James Pritchard – Dirprwy Arweinydd a Hyrwyddwr Cydraddoldeb
Cyng Eluned Stenner – Aelod Cabinet dros Berfformiad, Economi a Menter
Cyng Gez Kirby – Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau
Cyng Brenda Miles – Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau
Sue Richards – Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg
Robert Tranter – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro
Lynne Donovan – Pennaeth Gwasanaethau Pobl
Kathryn Peters – Rheolwr Gwella Gwasanaeth a Phartneriaethau
Christopher Hunt – Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol (Gorllewin Gwent)
Elizabeth Rees – Swyddog Rheoli Gwybodaeth AD
Elizabeth Sharma – Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu
Emma Bush – Seicolegydd Addysg
Gareth Jenkins – Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant
Jade Sallis – Swyddog Polisi
Jane Roberts-Waite – Rheolwr Cydlynu Strategol – Tai
Jo Williams – Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion
Karen Williams – Rheolwr Hwb Digidol Gwasanaethau Cwsmer
Lisa Rawlings – Swyddog Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog
Liz Goodwin – Cydlynydd ESF
Nick Rutter – Swyddog Cyfathrebu Digidol
Paul Jones – Rheolwr Ardal Addysg Oedolion
Rhian Kyte – Pennaeth Cynllunio ac Adfywio
Ros Roberts – Rheolwr Gwella Busnes
Sarah-Jayne Irish – Rheolwr Datblygu a Monitro
Sarah Mutch – Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar a Phartneriaethau

Papurau cefndir:

- Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024
- Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Adroddiad i'r Cabinet ar 9 Mehefin 2021 – Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2020-2021
- Dogfennau Canllaw Amrywiol (*Mae'r rhain ar gael yn electronig er gwybodaeth ar y Porth Mewnrwyd ac ar wefan y Cyngor yn https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Equalities?lang=cy-gb*)

Atodiadau:

Atodiad 1 Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2021